[illegible]

Digitized by the Internet Archive
in 2011 with funding from
Corporation of the Presiding Bishop, The Church of Jesus Christ of Latter-day Saints

http://www.archive.org/details/pabethywmormonia00jone

Presented to
President F. D. Richards
by his
Humble servant
The Author

# PA BETH YW "MORMONIAETH?"

PRAWF yr holl ddarlithio, y pregethu, y cyhoeddi, a'r dadwrdd a wna ei gwrthwynebwyr, ynghyd a'r mawr sêl a ddwg ei phleidwyr i'w hegluro, fod "Mormoniaeth," nid yn unig yn bwysig a dyddorol, ond prawf hefyd yr anghen sydd am iawn ddealltwriaeth o pa beth yw hi. Pwy a ateb y cwestiwn gywiraf? Os ei gwrthwynebwyr, paham nad gwrthwynebwyr *pob plaid* a chyfundrefn arall yw yr addasaf i'n dysgu pa bethau a gredant? Os pregethwyr y Bedyddwyr yw y rhai addasaf i bregethu Mormoniaeth, yna y Mormoniaid yw y rhai goreu i bregethu Bedyddiaeth,—yr Independiaid a ddywedant gywiraf pa beth yw Calfiniaeth;—yr Undodiaid a ddylid gredu yn pregethu Trindodiaeth; a dylid myned i gapeli y Pabyddion er iawn ddeall pa beth yw gwir ddaliadau Sectyddiaeth, &c. Etto mwy rhesymol yw credu ei phregethwyr ei hun yn ei hegluro fel y rhesymol gredir am bob peth arall ond am "Formoniaeth."

Mae yr awdwr wedi manwl ymchwilio iddi am dros ddwsin o flwyddi, a chael gwell manteision i'w hiawn ddeall hi nag yw un dyn arall o blith y genedl hon, ac wedi profi i foddlonrwydd miloedd o'i hufyddion na fedd amcan amgen na rhoddi *iawn* ddarluniad o'i hegwyddorion hi, y rhai ydynt fel y canlyn i ddechreu, sef :—

I. Nad oes ond un efengyl neu gyfundrefn wirioneddol wedi ei dadguddio yn mhlith dynion, drwy yr hon y gellir cymmodi pechadur a Duw, ei santeiddio, a'i ddarparu i gael rhan yn y "mabwysiad, sef prynedigaeth y corff,"—i gael mwynhau cymdeithas y rhai cyntaf-anedig, a'r holl saint wedi eu perffeithio, pan y byddant yn teyrnasu gyda'u Harglwydd dros fil o flynyddoedd, ac wedi hyny i gael preswylio yn dragywyddol yn mhresennoldeb yr Hwn sydd yn dân ysol, ac yn llosgfeydd tragywyddol i bob peth anmherffaith. Fod y gyfyndrefn hon yn berffaith. fel ei Hawdwr, wedi ei chynllunio yn y cynghor dwyfol cyn bod y byd, ei bod fel yr Awdwr o honi yn *anghyfnewidiol* yn ei holl ranau a'i hysgogiadau, yn dwyn yr un ffrwythau, neu yn ateb y cyfryw ddybenion yn mhob oes o'r byd, yn y rhai y mae wedi bod ac yn bod.

II. Fod yr un gyfundrefn berffaith hon wedi cael ei hamlygu gan y Creawdwr daionus a Thad yr hîl ddynol i'w blant yn y

*Pris Dimai.*

dechreuad, ganddo Ef ei hun, gan ei angylion anfonedig, trwy weledigaethau, ysbryd y brophwydoliaeth, a dadguddiadau mewn llawer dull a modd.

III. Fod yr un gyfundrefn berffaith hon wedi cael ei llygru a'i chyfnewid gan ddynion, mewn llawer oes o'r byd i'r fath eithafion, nes yr oedd yn anghenrheidiol i'w hawdwr, sef Creawdwr a Chynnaliwr y byd a'i breswylyddion ei hadferyd yn ol, drwy offerynau megys ag y sefydlwyd hi ar y cyntaf.

IV. Fod y gyfyndrefn berffaith hono a sefydlwyd gan Grist wedi cael ei chyfnewid a'i dirywio gan ddynion i'r fath raddau, er's cannoedd o flynyddau, fel nad oedd i'w chael yn ei grym, ei phurdeb. a'i gogoniant hanfodol mwyach yn mhlith dynion; a dyma yr achos o'r holl wahanol bleidiau a sectau sydd yn gorlenwi y byd, sef o herwydd fod dynion yn ceisio dyfod o hyd i'r gyfundrefn hono yn ol, ac wedi methu gwnant rai eu hunain mor debyg iddi ag y gallant, a rhoddant yr enw o "Gristionogaeth" arnynt, gan "wadu ei grym" hanfodol hi, fel y dywed y prophwydoliaethau y gwnelent yn y "dyddiau diweddaf."

V. Fod yr un gyfundrefn berffaith hono wedi cael ei hadferyd yn ol i'r ddaear, a'i sefydlu yn yr oes hon yn yr un dull a thrwy y cyffelyb offerynau ag yn mhob goruchwyliaeth flaenorol; sef trwy lais Duw y nefoedd, trwy weinidogaeth angylaidd, gweledigaethau, a dadguddiadau oddiwrth yr Arglwydd. Y mae hon yn *oruchwyliaeth* newydd, nid *cyfundrefn* newydd, ond adferiad hollol o'r *gyfundrefn gyntefig*, sef yr hon a bwrcaswyd yn y cyngher tragywyddol, a sefydlwyd gan y patriarchiaid, y prophwydi, gan Grist, a'r apostolion, ac yn y tro diweddaf hwn, sef yr "unfed awr ar ddeg," gan angel o'r nef er dwyn i mewn "ogoniant y dydd diweddaf," "cyflawnder y Cenedloedd," "adferiad Judah," a "gweddillion Israel," ie, fel y delo "yr amseroedd adferiad pob peth" a lefarodd Duw trwy enau ei santaidd brophwydi erioed; er darparu y ffordd i ail ddyfodiad y Messia i deyrnasu yn fuddugoliaethus ar ei holl elynion mewn gogoniant am fil o flynyddau. Dyna ran o *wir* "Formoniaeth."

Yn nesaf, dangoswn yr egwyddorion cyntaf yn nghyflawnder yr efengyl dragywyddol yn yr oes hon, fel yn mhob oes flaenorol, y rhai ydynt fel y canlyn:—

1. Y rhaid i bob un gredu yn Iesu Grist, fel digonol Wared-wr, croeshoeliedig ac adgyfodedig.

2. Edifarhau am ei holl bechodau a'u gadael, gan rodio bywyd newydd, gwneuthur cyfiawnder â phob dyn, a gwasanaethu Duw.

3. Cymmeryd ei fedyddio, sef ei gladdu mewn dwfr, a hyny gan un o weision anfonedig Duw, yn enw Iesu Grist, *er maddeuant pechodau.* Gwel Act. ii, 38, a xxii, 16; 1 Pedr iii, 21, &c.

4. Derbyn yr Ysbryd Glân, trwy arddodiad dwylaw henuriaid eglwys Iesu Grist, *Saint y Dyddiau Diweddaf.* Gwel Actau viii, 17, 18, 20, a xix. 6; 1 Tim. iv, 14; 2 Tim. i, 6; Heb vi, 1, 2.

5. Credu yn, a gweddio am gael mwynhau y doniau ysbrydol, a'r bendithion daionus, a fwynheid gan y rhai a ufyddhaent i'r gyfundrefn nefolaidd hon yn y cyn oesoedd; megys ymadrodd doethineb — ymadrodd gwybodaeth — ffydd wyrthiol—dawn iachâu, a derbyn iechyd, trwy eneinnio ag olew cyssegredig yn enw yr Arglwydd, gweddi y ffydd, ac arddodiad dwylaw. Gwel Iago v, 14, 15; Marc xvi, 18. Hefyd, ymdrechu cael dawn y brophwydoliaeth, gwahaniaeth ysbrydoedd, llefaru â thafodau dyeithr, cyfieithu yr unrhyw, cael dadguddiadau oddiwrth Dduw, gweinidogaeth angylaidd, cymdeithas ysbrydoedd daionus o'r byd tragywyddol mewn gweledigaethau, &c., a phob bendithion ereill sydd yn addawedig yn yr ysgrythyrau i blant Duw. Gwel 1 Cor. xii, a xiv, 1, 5, 18, 39; Act. ii, 39; Marc xvi, 17, 18; Eph. iv, 11—14.

6. Dylai pob un a broffesa y gyfundrefn hon, fyw yn santaidd a chyfiawn, gan weddio â phob rhyw weddi, megys y rhoddo yr Ysbryd iddynt ymadrodd; gwneyd daioni i bawb yn enwedig i deulu y ffydd; gweddio dros y rhai a wnel niwed iddynt ac a'u herlidiant; ymddidoli oddiwrth yr holl Babel-ffurfiau, a phob ffurf o athrawiaeth afiachus, gan gofio fod y cyfryw yn llygru moesau da; "Deuwch allan o Babilon, na fyddwch gyfranog o'i phechodau rhag i chwi dderbyn o'i phläau." – Dat. xviii, 4.

*Ac yn olaf.*—Dylai y rhai a ddeuant i mewn i rwymyn y cyfammod newydd hwn, a chyflawnder yr efengyl wylio a gweddio, fel nad elont i brofedigaeth ond bod yn barod, gan ddysgwyl am ddyfodiad Mab y Dyn; canys efe a ddaw yn ddi-

symwth a diatreg ar blant y tywyllwch, pan ddywedant, "Heddwch, heddwch;" pan y byddant hwy, wedi yr holl rybyddio, fel yr oedd yn nyddiau Noah, yn bwyta ac yn yfed, yn priodi a rhoi i briodas, a bwrw y dydd drwg yn mhell oddiwrthynt; am hyny, yn yr awr ni thybiant y daw Mab y Dyn.

Dyma ydyw y darluniad cywir o'r gyfundrefn efengylaidd yn ol yr ysgrythyrau, ac fel y mae gan Saint y Dyddiau Diweddaf, a phob peth a'r sydd yn groes i hyn o'r drwg y mae, ac nid Mormoniaeth yw pe haerai holl bregethwyr sectyddol y byd mai ê; ac os daw neb atoch, gan broffesu bod yn weision i Dduw, heb ddwyn yr athrawiaeth hon—ïe, "pe bai angel o'r nef yn efengylu i chwi yn amgen nâ'r pethau hyn, bydded anathema." Fel y dywed Ioan y dywedwn ninnau—"Od oes neb yn dyfod atoch ac heb ddwyn y ddysgeidiaeth hon na dderbyniwch ef i dŷ, ac na ddywedwch Duw yn rhwydd wrtho; canys yr hwn sydd yn dywedyd Duw yn rhwydd wrtho sydd gyfranog o'i weithredoedd drwg ef." Mynych y cyhuddir y Saint o bregethu efengyl newydd, gan daflu yr ysgrythyrau hyn i'n gwynebau, ïe, gan rai mor euog â Dafydd gynt, pan roddes y ddedfryd arno ei hun; ac nid addasach i Nathan ddweyd wrtho ef, "Tydi yw y gwr," nag a fyddai i ninnau ddweyd yr un peth wrth y cyhuddwyr hyn. A'r neb a gymmero y drafferth o gymharu ein proffes â'r ysgrythyrau a welant yn eglur mai camgyhuddiad hollol yw hyny, eithr mai y gyfundrefn dragywyddol sydd genym ni—mai ein cyhuddwyr sydd yn pregethu efengylau newyddion, pe baent efengylau hefyd. Gymro mwyn, paid a'u coelio, eithr chwilia drosot dy hun; canys gwell gan rai o'r cyfryw dy weled ti yn colli dy enaid, nâ gweled gobaith eu helw eu hunain yn pallu; ac yna, gwaeddant yn groch, "Ymaith a'r bobl hyn," y maent yn dweyd yn erbyn ein "duwies fawr," yr hon y mae ein tadau wedi bod yn addoli. Eithr meddwn ni, yr hwn sydd ganddo lygaid darllened ein llyfrau—yr hwn sydd ganddo glust gwrandawed ein cenadwri, canys dwyfol yw, a'n tystiolaeth sydd wirionedd safadwy. Dyma yw Mormoniaeth!

Ebe eich cyfaill geirwir,

D. JONES.

---

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN D. JONES, ABERTAWY.